| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 28 Mawrth 2023 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Y Cyng. Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant / Tony Ward, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi |
| **Awdur yr adroddiad** | Tony Ward |
| **Teitl** | Terfynu'r contract ar gyfer prif gontractwr Cam 2 y Depo Gwastraff |

# 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y penderfyniad i derfynu'r contract rhwng Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) ac R L Davies & Sons Ltd (RLD) i RLD fod yn brif gontractwr Cam 2 y Depo Gwastraff ar Ystad Colomendy, Dinbych.

# 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I adrodd yn ffurfiol i'r Cabinet, yn ysgrifenedig, bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi wedi gwneud penderfyniad brys ar 20 Chwefror 2023, o dan 2.9 cyfansoddiad y Cyngor, i derfynu'r contract rhwng Cyngor Sir Ddinbych ac RLD iddynt weithredu fel y prif gontractwr ar gyfer Cam 2 Depo Gwastraff ar Ystâd Colomendy, Dinbych. Mae'r cyfansoddiad yn caniatau i benderfyniad dirprwyedig ar frys gael ei wneud lle na allai penderfyniad aros tan y cyfarfod cyntaf posib o'r Cabinet.

2.2. I gadarnhau sut y gwnaed y penderfyniad i ddyfarnu'r contract i RLD.

2.3. I roi diweddariad i'r Cabinet ar beth sydd wedi digwydd ers i RLD fynd i ddwylo'r gweinyddwyr mewn perthynas ag adeiladu'r depo.

2.4. I gadarnhau y bydd adroddiad dilynol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet (trefnwyd ar hyn o bryd ar gyfer 25 Ebrill 2023), fel bod y Bwrdd Prosiect yn gallu argymell y dewis a ffefrir ar gyfer cwblhau gwaith adeiladu'r depo.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn nodi'r penderfyniad dirprwyol brys y cyfeirir ato ym mharagraff 2.1.

3.2. Bod y Cabinet yn ystyried yr adroddiad ac yn rhoi adborth fel sy'n briodol.

## 4. Manylion yr adroddiad

**Terfynu'r contract**

4.1. Aeth RLD i ddwylo'r gweinyddwyr ddydd Iau, 16 Chwefror 2023. Ar ôl derbyn y gymeradwyaeth angenrheidiol, cafodd Hysbysiad Terfynu ei gyflwyno ar RLD a'r Gweinyddwr a benodwyd ar ddydd Llun, 20 Chwefror, oedd yn terfynu'r Contract rhwng CSDd ac RLD.

4.2. Mae colli RLD yn gadael Cam 2 heb Brif Gontractwr. Ar ôl i ni gyflwyno'r hysbysiad terfynu, roedd rôl y Prif Gontractwr yn dychwelyd i CSDd.

**Sut gwnaed y dyfarniad contract**

4.3. Roedd y penderfyniad i ddyfarnu'r contract wedi'i ddirprwyo gan y Cabinet i'r Prif Weithredwr ar 12 Ebrill 2022. Gallai'r etholiadau lleol ym mis Mai 2022 a'r amserlen ansicr ar gyfer sefydlu Cabinet newydd fod wedi achosi oedi cyn dyfarnu'r contract. Byddai unrhyw oedi cyn dyfarnu'r contract wedi arwain at oedi i'r prosiect a byddai bron yn sicr wedi arwain at gostau ychwanegol i'r cyngor. Ar ôl cwblhau'r ymarfer tendro, roedd yn ofynnol i'r Prif Weithredwr ymarfer y pwerau a ddirprwywyd iddo gan y Cabinet i ddyfarnu'r contract.

4.4. Gan fod y penderfyniad dirprwyo wedi'i wneud ar 17 Mehefin 2022 e.e. ar ôl i Gabinet newydd gael ei ffurfio, roedd y Prif Weithredwr wedi cymryd i ystyriaeth y sylwadau a ddarparwyd gan yr Arweinydd newydd (Cyng Jason McLellan) ac Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant newydd (Cyng Barry Mellor) wrth wneud y penderfyniad i ddyfarnu'r contract i RLD. Roedd y Prif Weithredwr

hefyd yn nodi’r sylwadau a ddarparwyd gan y Swyddog A151 (Steve Gadd) a’r Swyddog Monitro (Gary Williams).

4.5. O ran y broses dendro, mae CSDd wedi datgan Meini Prawf Gwerthuso Tendr sy’n rhaid iddo ei ddilyn a chydymffurfio. Mae’r sgôr Ansawdd (40%) / Cost (60%) wedi eu cyfuno yn y methodoleg cyfrifo a ddatganwyd i gyflwyno’r safle terfynol. Yn yr achos hwn, roedd RLD yn y safle 1af allan o bedwar tendr a gyflwynwyd.

4.6. Fel rhan o’r gwerthusiad tendro, mae gwiriad ariannol “Dunn & Bradstreet” (D&B) yn cael ei gynnal i helpu i ddeall sefyllfa ariannol y sefydliadau. Mae’r broses hon yn dyrannu sgôr o (0 i 5) yn seiliedig ar pa mor isel o dan cyfartaledd y diwydiant yw sgôr “Dunn & Bradstreet”. Os yw unrhyw sgôr D&B o dan 11 (sy’n sgorio 0), gellir neilltuo’r tendr hwnnw yn gyfreithiol. Roedd RLD wedi sgorio 1, yn seiliedig ar Sgôr D&B o 18 ac felly wedi mynd heibio’r trothwy gofynnol/a gyhoeddwyd o ran y prawf ariannol.

4.7. Er bod RLD wedi llwyddo yn y prawf ariannol gofynnol, roedd y sgôr o 1 yn nodi risg canolig o ddefnyddio’r cwmni. Y cyngor a dderbyniwyd gan yr Adran Caffael a Chyfreithiol oedd bod RLD wedi llwyddo yn y prawf gofynnol yn ein methodoleg gwerthuso tendr nodedig, ac felly nid oeddent yn gallu neilltuo eu tendr. Byddai RLD wedi gallu cyflwyno her gyfreithiol os byddem wedi dyfarnu’r contract i sefydliad arall gan fod RLD yn y safle cyntaf ar ôl gwerthuso tendr.

4.8. Mae sgôr o 1 hefyd angen i’r gwasanaeth “ystyried monitro’r cwmni yn fwy agos os bydd contract yn cael ei ddyfarnu - yn arbennig ar gyfer contractau ar raddfa fawr” (gweler Atodiad 1 ar gyfer y Matrics Sgorio). Fel rhan o’r strategaeth lleihau risg, roedd CSDd wedi gweithredu camau monitro mwy manwl ar gyfer RLD a hefyd wedi gwneud y penderfyniad i dalu rhai o’r is-gontractwyr mwyaf sylweddol yn uniongyrchol i leihau’r effaith os byddai RLD yn mynd i ddwylo’r gweinyddwyr.

4.9. Felly, cafodd y contract ei ddyfarnu i RLD ym mis Mehefin 2022. Yn Awst 2022, roedd Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi gwneud penderfyniad i beidio dyfarnu contract i RLD (y ‘Cynigydd a Ffafrir’) ar gyfer Uned Breswyl Asesu Plant Is-Ranbarthol (Bwthyn y Ddôl). Oherwydd agosrwydd y

penderfyniadau hynny, mae cwestiynau wedi cael eu gofyn am y rheswm dros y ddau benderfyniad gwahanol.

4.10. Roedd y ddau brosiect hwn wedi cyrraedd camau datblygu gwahanol iawn, gyda phrosiect Bwthyn y Ddôl yn y camau cynharaf, oedd yn galluogi Conwy i ohirio ac adlewyrchu ac yn bennaf dechrau'r broses gaffael drosodd eto. Mae hyn wedi achosi 12 mis o oedi yn y prosiect, a bydd y prosiect yn costio mwy nag y rhagwelwyd yn wreiddiol o ganlyniad i hynny.

4.11. Nid oedd CSDd yn y sefyllfa honno gyda Cham 2 o'r prosiect depo gwastraff. Mae yna bob amser bwysau wedi bod o ran cyflawni ein prosiect ac mae Cam 1 eisoes wedi'i gwblhau. Byddai unrhyw oedi sylweddol i Gam 2 wedi creu llithriad sylweddol wrth gyflwyno'r gwasanaeth newydd fesul cam a byddai wedi cynnwys goblygiadau cost sylweddol iawn ar gyfer y prosiect cyffredinol a'r cyngor.

4.12. Felly, er ein bod yn ymwybodol bod penodi RLD yn golygu rhywfaint o risg, teimlwyd bod y risgiau hyn yn dderbyniol o ystyried ein hamgylchiadau. Mae pob prosiect yn cynnwys risg a'n rôl ni yw rheoli'r risgiau hynny gorau y gallwn.

**<u>Cwblhau'r prosiect adeiladu</u>**

4.13. Mae CSDd wedi penodi'r prif is-gontractwyr sydd eu hangen yn uniongyrchol i barhau i ddatblygu'r gwaith yn y tymor byr tra bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar y ffordd hirdymor ymlaen ar gyfer cyflawni'r prosiect. Mae yna sawl dewis ar gyfer bwrw ymlaen â'r prosiect, gan gynnwys:

- Aildendro'r contract.
- Penodi contractwr arall o'r ymarfer tendro gwreiddiol.
- Penodi contractwr arall gyda gwybodaeth am y prosiect
- Rheoli'r contract yn fewnol gan CSDd

4.14. Mae'r dewisiadau hyn yn cael eu harchwilio yn fwy manwl ar hyn o bryd i werthuso materion fel risg, ymarferoldeb, effaith ar y rhaglen a chost. Yna bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ble bydd y Bwrdd Prosiect yn argymell

y dewis a ffefrir ar gyfer cwblhau gwaith adeiladu'r depo.   Mae'r papur hwn wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod y Cabinet ar 25 Ebrill 2023.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Ni cheisir penderfyniad yn y papur hwn, sy'n cyflawni'r gofyniad i adrodd yn ffurfiol ar benderfyniad brys a wnaed o dan 2.9 o gyfansoddiad y Cyngor.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes yna gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r Cabinet yn nodi'r penderfyniad brys a wnaed o dan 2.9 o gyfansoddiad y Cyngor.  Fodd bynnag, bydd yna amrywiol gostau yn gysylltiedig â'r dewisiadau i symud y prosiect hwn ymlaen i'w gwblhau.   Bydd hynny'n cael ei gynnwys yn y dilyniant i adrodd i'r Cabinet y cyfeirir ato ym mharagraff 4.13.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes yna Asesiad o Effaith ar Les sy'n gysylltiedig â'r papur hwn yn benodol. Mae Asesiad o Effaith ar Les wedi'i ddatblygu ar gyfer newid y gwasanaeth casglu gwastraff ac mae hwnnw'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar hyn o bryd, gan iddo gael ei ddatblygu fel rhan o'r achos busnes gwreiddiol.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r penderfyniad i derfynu'r contract gydag RLD, a'r camau tymor byr dilynol a gymerwyd, wedi cynnwys ymgynghori gyda'r Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, y Cabinet (yn sesiwn Briffio'r Cabinet) a'r Swyddog A151 a Llywodraeth Cymru.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Croesewir y wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd yn yr adroddiad hwn yn fawr. Nid oes yna unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn yr adroddiad, fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, bydd unrhyw effaith ar baramedrau ariannol yr achos busnes a gytunwyd y llynedd angen cymeradwyaeth bellach gan y Cabinet.

## 10. Beth yw'r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?

10.1. Roedd y Prosiect yn cynnwys cofrestr risg bwrpasol a reolir gan y Bwrdd Prosiect.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 2.9 Cyfansoddiad y Cyngor.